



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 3101 (Cy.314)

2012 No. 3101 (W.314)

**CYRFF CYHOEDDUS,
CYMRU A LLOEGR**

**PUBLIC BODIES,
ENGLAND AND WALES**

**Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU
A LLOEGR**

**WATER INDUSTRY,
ENGLAND AND WALES**

**FFIOEDD A THALIADAU,
CYMRU A LLOEGR**

**FEES AND CHARGES,
ENGLAND AND WALES**

Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus
(Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr)
(Ffioedd Arolygu) 2012

The Public Bodies (Water Supply
and Water Quality) (Inspection
Fees) Order 2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i ffioedd fod yn daladwy gan gyflenwr dŵr perthnasol am gyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 gan arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno. Mae'r swyddogaethau yn ymwneud â'r ymchwiliadau a'r gofynion adrodd a ganlyn—

This Order provides for fees to be payable by a relevant water supplier for the carrying out of certain functions under the Water Industry Act 1991 by an inspector appointed by the Welsh Ministers under that Act. The functions are related to the following investigations and reporting requirements—

- (a) gwirio trefniadau samplu a dadansoddi dŵr;
- (b) gwirio trefniadau rheoli cyflenwad dŵr;
- (c) ymchwilio i ddigwyddiad, achlysur, argyfwng neu fater arall sy'n deillio o ansawdd neu ddigonolrwydd dŵr;
- (d) gwirio'r dull o ymdrin â chwynion gan ddefnyddwyr am ansawdd dŵr a'r dull o adrodd ar y cwynion hynny; ac
- (e) gwirio cydymffurfedd â gofynion i roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau a'r materion hyn neu i'w hysbysu am y trefniadau a'r materion hyn.

- (a) checking water sampling and analysis arrangements;
- (b) checking water supply management arrangements;
- (c) investigating an event, incident, emergency or other matter arising from the quality or sufficiency of water;
- (d) checking the handling and reporting of consumer complaints about water quality; and
- (e) checking compliance with requirements to furnish information to, or to notify, the Welsh Ministers concerning these arrangements and matters.

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r amgylchiadau pan fo ffioedd yn daladwy ac yn cael eu cymeradwyo, eu cyhoeddi a'u hadolygu a'r modd o wneud hynny (erthygl 4 a'r Atodlen).

This Order sets out the circumstances and manner in which fees are payable, approved, published and reviewed (article 4 and the Schedule).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 3101 (Cy.314)

**CYRFF CYHOEDDUS,
CYMRU A LLOEGR**

**Y DIWYDIANT DŴR, CYMRU
A LLOEGR**

**FFIOEDD A THALIADAU,
CYMRU A LLOEGR**

Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus
(Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr)
(Ffioedd Arolygu) 2012

Gwnaed

12 Rhagfyr 2012

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 14(3) a 15(1) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011(1) ("y Ddeddf").

At ddibenion adran 16 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru o'r farn—

- (a) bod y Gorchymyn hwn yn ateb y diben y cyfeirir ato yn adran 16(1) o'r Ddeddf; a
- (b) bod yr amodau yn adran 16(2)(a) a (b) o'r Ddeddf wedi eu bodloni.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf.

Mae drafft o'r Gorchymyn hwn a dogfen esboniadol sy'n cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 19(2) o'r Ddeddf wedi eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 19(1) ar ôl diwedd y cyfnod o ddeuddeg wythnos fel a bennir yn adran 19(3). Yn unol ag adran 19(4) o'r Ddeddf, mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei gymeradwyo drwy

2012 No. 3101 (W.314)

**PUBLIC BODIES,
ENGLAND AND WALES**

**WATER INDUSTRY,
ENGLAND AND WALES**

**FEES AND CHARGES,
ENGLAND AND WALES**

The Public Bodies (Water Supply
and Water Quality) (Inspection
Fees) Order 2012

Made

12 December 2012

Coming into force in accordance with article 1

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 14(3) and 15(1) of the Public Bodies Act 2011(1) ("the Act").

For the purposes of section 16 of the Act, the Welsh Ministers consider that—

- (a) this Order serves the purpose referred to in section 16(1) of the Act; and
- (b) the conditions in section 16(2)(a) and (b) of the Act are satisfied.

The Welsh Ministers have consulted in accordance with section 18 of the Act.

A draft of this Order and an explanatory document containing the information required by section 19(2) of the Act have been laid before the National Assembly for Wales in accordance with section 19(1) after the end of the period of twelve weeks as specified in section 19(3). In accordance with section 19(4) of the Act, a draft of this Order has been approved by a

(1) 2011 p.24.

(1) 2011 c.24.

benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl diwedd y cyfnod o 40 niwrnod y cyfeirir ato yn y ddarpariaeth honno.

Enwi, cychwyn a rhychwantu

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012.

(2) Daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991(1);

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 86(1) o Ddeddf 1991 (aseswyr gorfodi ansawdd dŵr)(2);

ystyr "cyflenwr dŵr perthnasol" ("*relevant water supplier*") yw—

(a) ymgymwrwr dŵr(3) y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru; neu

(b) cwmni sy'n ddeiliad trwydded cyflenwi dŵr o fewn ystyr adran 17A o Ddeddf 1991 (trwyddedu cyflenwyr dŵr) sy'n defnyddio system gyflenwi unrhyw ymgymwrwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;

ystyr "Prif Arolygydd" ("*Chief Inspector*") yw'r person a ddynodir felly o dan adran 86(1B) o Ddeddf 1991; a

rhaid dehongli "system gyflenwi" ("*supply system*") yn unol ag adran 17B(5) o Ddeddf 1991.

(2) Yn y Gorchymyn hwn bydd unrhyw gyfeiriadau at "y tabl" ("*the table*") yn gyfeiriadau at y tabl yn yr Atodlen.

(1) 1991 p.56.

(2) Diwygiwyd adran 86 gan adran 57 ac adran 101(1) o Ddeddf Dŵr 2003 p.37 a pharagraff 27 o Atodlen 8 iddi. Y mae offerynnau diwygio eraill i'w cael, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Gwnaed y swyddogaethau o dan adran 86 (ac eithrio is-adran (1A)) yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") i'r un graddau ag y mae'r pwerau, y dyletswyddau a'r darpariaethau eraill y mae adran 86 yn gymwys iddynt yn arferadwy gan y Cynulliad drwy erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosgrwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ("y Gorchymyn"); gweler y cofnod yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn ar gyfer Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel y'i hamnewidiwyd gan baragraff (e) o Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosgrwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) ac fel y'i diwygiwyd gan adran 100(2) o Ddeddf Dŵr 2003. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p.32 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(3) Gweler Atodlen 1 i Ddeddf Ddehongli 1978 p.30.

resolution of the National Assembly for Wales after the expiry of the 40-day period referred to in that provision.

Title, commencement and extent

1.—(1) The title of this Order is the Public Bodies (Water Supply and Water Quality) (Inspection Fees) Order 2012.

(2) It comes into force on the day after the day on which it was made.

(3) It extends to England and Wales.

Interpretation

2.—(1) In this Order—

"the 1991 Act" ("*Deddf 1991*") means the Water Industry Act 1991(1);

"Chief Inspector" ("*Prif Arolygydd*") means the person designated as such under section 86(1B) of the 1991 Act;

"inspector" ("*arolygydd*") means a person appointed by the Welsh Ministers under section 86(1) of the 1991 Act (assessors for the enforcement of water quality)(2);

"relevant water supplier" ("*cyflenwr dŵr perthnasol*") means—

(a) a water undertaker(3) whose area is wholly or mainly in Wales; or

(b) a company which is the holder of a water supply licence within the meaning of section 17A of the 1991 Act (licensing of water suppliers) that uses the supply system of any water undertaker whose area is wholly or mainly in Wales; and

"supply system" ("*system gyflenwi*") shall be construed in accordance with section 17B(5) of the 1991 Act.

(2) In this Order references to "the table" ("*y tabl*") are to the table in the Schedule.

(1) 1991 c.56.

(2) Section 86 was amended by section 57 and section 101(1) of, and paragraph 27 of Schedule 8 to the Water Act 2003 c.37. There are other amending instruments but none are relevant. The functions under section 86 (except subsection (1A)) were made exercisable by the National Assembly for Wales ("the Assembly") to the same extent as the powers, duties and other provisions to which section 86 applies are exercisable by the Assembly by article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) ("the Order"); see the entry in Schedule 1 of the Order for the Water Industry Act 1991 as substituted by paragraph (e) of Schedule 3 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) and amended by Section 100(2) of the Water Act 2003. By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 c.32, these functions conferred on the Assembly are exercisable by Welsh Ministers.

(3) See Schedule 1 to the Interpretation Act 1978 c.30.

Y cyfnod y caniateir codi tâl amdano

3.—(1) Yn y Gorchymyn hwn rhaid cyfrifo nifer y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt yn seiliedig ar y fformiwla canlynol—

$$C = \frac{T}{7}$$

pan—

"C" yw nifer y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt; a

"A" yw cyfanswm yr amser (a fynegir mewn oriau) pan fo arolygydd yn cyflawni swyddogaeth a bennir ym mharagraff (b), (c) neu (d) o golofn 1 y tabl ar ddiwrnod calendr.

(2) At ddibenion cyfrifo "A" os bydd mwy nag un arolygydd yn cyflawni'r swyddogaeth, rhaid agregu cyfanswm yr amser a dreuliwyd gan bob arolygydd.

Ffioedd

4.—(1) Caiff y Prif Arolygydd godi ffi ar gyflenwr dŵr perthnasol, a honno'n daladwy pan geir anfoneb ar ei chyfer, am arfer swyddogaethau arolygydd o dan adran 86(2) o Ddeddf 1991 fel y'u pennir yng ngholofn 1 o'r tabl.

(2) Rhaid i'r Prif Arolygydd benderfynu ar y ffi yn unol â'r cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r tabl.

(3) Rhaid i'r cyfraddau sydd i'w cymhwyso wrth wneud penderfyniad o ran y ffi y cyfeirir ati yng ngholofn 2 o'r tabl gael eu pennu gan y Prif Arolygydd ac—

- (a) cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru;
- (b) cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru (rhaid i hynny gynnwys eu cyhoeddi ar wefan); ac
- (c) cael eu hadolygu gan Weinidogion Cymru ar neu cyn 30 Mehefin ym mhob blwyddyn galendr ar ôl y flwyddyn galendr pan gymeradwywyd y ffi ddiwethaf gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (a).

(4) Rhaid i unrhyw ffioedd a geir o dan y Gorchymyn hwn gael eu talu i'r Gronfa Gyfunol.

The chargeable period

3.—(1) In this Order the number of chargeable periods shall be calculated based on the following formula—

$$C = \frac{T}{7}$$

where—

"C" is the number of chargeable periods; and

"T" is the total time (expressed in hours) during which an inspector performs a function specified in paragraph (b), (c) or (d) of column 1 of the table on a calendar day.

(2) For the purposes of calculating "T" if the function is performed by more than one inspector, that total time taken by each inspector shall be aggregated.

Fees

4.—(1) The Chief Inspector may charge a relevant water supplier a fee, payable on invoice, for the exercise of such functions of an inspector under section 86(2) of the 1991 Act as are specified in column 1 of the table.

(2) The Chief Inspector must determine the fee in accordance with the corresponding entry in column 2 of the table.

(3) The rates to be applied to the determination of the fee referred to in column 2 of the table must be fixed by the Chief Inspector and—

- (a) be approved by the Welsh Ministers;
- (b) be published by the Welsh Ministers (which must include publication on a website), and
- (c) be reviewed by the Welsh Ministers on or before 30 June in each calendar year following the calendar year in which the fee was last approved by the Welsh Ministers under sub-paragraph (a).

(4) Any fees received under this Order must be paid into the Consolidated Fund.

John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

Minister for Environment and Sustainable Development, one of the Welsh Ministers

12 Rhagfyr 2012

12 December 2012

Y FFIOEDD AM GYFLAWNI'R
SWYDDOGAETHAU O DAN ADRAN 86 O
DDEDDF Y DIWYDIANT DŴR 1991

FEEES FOR THE PERFORMANCE OF
FUNCTIONS UNDER SECTION 86 WATER
INDUSTRY ACT 1991

Tabl

<i>1</i> <i>Y Swyddogaeth</i>	<i>2</i> <i>Y Ffi</i>
(a) Gwirio bod y trefniadau samplu a dadansoddi ar gyfer samplau dŵr a gesglir gan y cyflenwr dŵr perthnasol yn cydymffurfio â'r canlynol—	Ffi i'w chyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd— (i) a bennwyd ar gyfer pob grŵp o 100 o ganlyniadau samplau dŵr a geir ac a wirir; a
(i) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010(1);	(ii) wedi ei lluosu â chyfanswm pob grŵp o'r fath.
(ii) adran 68 o Ddeddf 1991; a	
(iii) unrhyw ofynion am ddata sampl y mae'n ofynnol eu darparu o dan adran 202 o Ddeddf 1991.	
(b) Gwirio—	Ffi i'w chyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd—
(i) bod trefniadau rheoli cyflenwad dŵr y cyflenwr dŵr perthnasol yn cydymffurfio â'r canlynol—	(i) wedi ei phennu fesul cyfnod y caniateir codi tâl amdano; a
(aa) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010;	(ii) wedi ei lluosu â chyfanswm y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt a dreuliwyd yn cyflawni'r swyddogaeth.
(bb) adran 37 o Ddeddf 1991;	

Table

<i>1</i> <i>Function</i>	<i>2</i> <i>Fee</i>
(a) Checking that the sampling and analysis arrangements for water samples collected by the relevant water supplier comply with—	A fee to be calculated using the rate— (i) fixed for each group of 100 water sample results received and checked; and
(i) the Water Supply (Water Quality) Regulations 2010(1);	(ii) multiplied by the total number of each such group.
(ii) section 68 of the 1991 Act; and	
(iii) any requirements for sample data required to be provided under section 202 of the 1991 Act.	
(b) Checking that—	A fee to be calculated using the rate—
(i) the relevant water supplier's water supply management arrangements comply with—	(i) fixed for each chargeable period; and
(aa) the Water Supply (Water Quality) Regulations 2010;	(ii) multiplied by the total number of chargeable periods spent performing the function.
(bb) section 37 of the 1991 Act;	

(1) O.S. 2010/994 (Cy.99) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/14 (Cy.7).

(1) S.I. 2010/994 (W.99) as amended by S.I. 2011/14 (W.7).

(cc) adran 68 o Ddeddf 1991; a		(cc) section 68 of the 1991 Act; and	
(ii) bod y cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad gan Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth am y trefniadau hyn o dan adran 202 o Ddeddf 1991.		(ii) the relevant water supplier has complied with any requirement of the Welsh Ministers to furnish information about these arrangements under section 202 of the 1991 Act.	
(c) Mewn perthynas â chyflenwr dŵr perthnasol—	Ffi i'w chyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd—	(c) In relation to a relevant water supplier—	A fee to be calculated using the rate—
(i) Ymchwilio i ddigwyddiad, achlysur, argyfwng neu fater arall pan fo unrhyw un neu rai o'r materion hynny yn dangos ei bod yn bosibl nad yw'r cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio â'r canlynol—	(i) wedi ei phennu fesul cyfnod y caniateir codi tâl amdano; a (ii) wedi ei lluosio â chyfanswm y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt a dreuliwyd yn cyflawni'r swyddogaeth.	(i) Investigating an event, incident, emergency or other matter where any of those matters indicate that the water supplier may not have complied with—	(i) fixed for each chargeable period; and (ii) multiplied by the total number of chargeable periods spent performing the function.
(aa) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010;		(aa) the Water Supply (Water Quality) Regulations 2010;	
(bb) adran 37 o Ddeddf 1991;		(bb) section 37 of the 1991 Act;	
(cc) adran 68 o Ddeddf 1991; a		(cc) section 68 of the 1991 Act; and	
(ii) gwirio bod hysbysiad wedi ei roi am ddigwyddiad, achlysur, argyfwng neu fater arall o'r fath gan y cyflenwr dŵr perthnasol yn unol ag unrhyw ofyniad gan Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth o'r fath o dan adran 202 o Ddeddf 1991.		(ii) checking that such an event, incident, emergency or other matter has been notified by the relevant water supplier in compliance with any requirement of the Welsh Ministers to furnish such information under section 202 of the 1991 Act.	

(d) Mewn perthynas â chyflenwr dŵr perthnasol—

Ffi i'w chyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd—

(i) ymchwilio i gwynion gan ddefnyddwyr am ansawdd neu ddigonolrwydd dŵr lle bod y gwyn yn dangos ei bod yn bosibl nad yw'r cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio â'r canlynol—

(i) wedi ei phennu fesul cyfnod y caniateir codi tâl amdano; a

(ii) wedi ei lluosio â chyfanswm y cyfnodau y caniateir codi tâl amdanynt a dreuliwyd yn cyflawni'r swyddogaeth.

(aa) Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010;

(bb) adran 37 o Ddeddf 1991;

(cc) adran 68 o Ddeddf 1991; a

(ii) gwirio bod y cyflenwr dŵr perthnasol wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad gan Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth am gwynion o'r fath o dan adran 202 o Ddeddf 1991.

(d) In relation to a relevant water supplier—

A fee to be calculated using the rate—

(i) investigating a consumer complaint about the quality or sufficiency of water where the complaint indicates that the water supplier may not have complied with—

(i) fixed for each chargeable period; and
(ii) multiplied by the total number of chargeable periods spent performing the function.

(aa) The Water Supply (Water Quality) Regulations 2010;

(bb) section 37 of the 1991 Act;

(cc) Section 68 of the 1991 Act ; and

(ii) checking that any requirement of the Welsh Ministers to furnish information about such complaints under section 202 of the 1991 Act has been complied with.